Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 16 Tachwedd 2020 am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike Van Der Eijk ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

337. CROESO AC YMDDIHEURIADAU
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

338. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

339. CYFLWYNIAD DROSI BIKES
Croesawodd y Maer Beth Ward o gwmni budd cymunedol Drosi Bikes i roi cyflwyniad cryno ar y prosiect beics i'r Cyngor. Y nod yw adnewyddu ac ailgylchu beics, yn cynnwys trosi beiciau traddodiadaol yn rhai trydan, ac annog pobl i ddysgu sut i gynnal a chadw eu beiciau trwy sesiynau gweithdair cymunedol. Dywedodd eu bod yn chwilio am leoliad er mwyn ehangu'r fenter. Gofynnwyd i'r aelodau holi cwestiynau a holwyd a fu unrhyw ymgynghori gyda busnesau lleol yn y maes hwn ac a fyddent yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd lleol ac awgrymwyd swyddogion cyswllt yn adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych o ran uned arfaethedig ar gyfer y prosiect.
PENDERFYNWYD: nodi'r cyflwyniad.

340. ADRODDIAD Y MAER
Adroddodd y Maer ei fod wedi mynychu neu fod yn rhan o'r digwyddiadau isod:

Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys
8.11 Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofeb Rhyfel
10.11 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a'r Grŵp Craffu Ariannol
11.11 Dau funud o dawelwch wrth y Gofeb Rhyfel a chyfarfod Grŵp Dinesydd Da
12.11 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio

341. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Deputy Mayor)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofeb Rhyfel, cyfarfod Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Iechyd a Diogelwch yn Ysgol Stryd y Rhos gyda swyddog Iechyd a Diogelwch y sir, cyfarfod y Grŵp Craffu Dogfennau a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod i drafod gwasanaeth Sul y Cofio, cynorthwyo gyda'r arddangosfa yn yr Hen Lys a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.

Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, y Grŵp Craffu Dogfennau a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod i drafod gwasanaeth Sul y Cofio, cynorthwyo gyda'r arddangosfa yn yr Hen Lys, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, y Grŵp Dinesydd Da a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfodydd Grŵp Llywio Theatr John Ambrose, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a'r Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Mike Van Der Eik	Cyfarfodydd ynghylch y prosiect Sied Trwsio a Rhannu arfaethedig.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfodydd Grŵp Llywio Theatr John Ambrose.

342. ADRODDIAD CYNGORHWYR SIR RHUTHUN

Cyfeiriodd adroddiad y Cynghorwyr Sir at yr adborth ynghylch y system draffig un ffordd a gyflwynwyd mewn ymateb i gadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19 ac annog teithio egnïol, Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ddrafft Cyngor Sir Ddinbych a'r ganolfan profion Covid-19 dros dro arfaethedig i'w lleoli ym maes parcio Iard Crispin.

343. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2020 yn gofnodion cywir.*

344. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd y Clerc at y llythyr diolch i Gyngor Tref Rhuthun gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am y cyfraniad ariannol o £2,000.00 tuag at waith y mudiad yn Rhuthun.

345. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020.*

346. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020.*

347. COFNODION Y GRŴP DINESYDD DA

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 a derbyn yr argymhellion.*

348. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 ac roeddynt o blaid argymhelliad yr is-bwyllgor y dylid diweddaru'r polisïau a adolygwyd, eu cyhoeddi ar y wefan a'u hadolygu'n flynyddol.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 a chymeradwyo a gweithredu'r argymhelliad.*

349. ADBORTH GAN Y GRŴP CRAFFU DOGFENNAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr adborth gan y Grŵp Craffu Dogfennau ynghylch Adroddiad

Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Derbyniodd yr aelodau'r penderfyniadau ac argymell fod y Cyngor Tref yn cyflwyno taliad o £300 i'r Dirprwy Faer yn unol â'r taliadau disgresiynol a restrwyd yn yr adroddiad.
PENDERFYNWYD*: derbyn yr adborth a'r argymhelliad i gyflwyno taliad i'r Dirprwy Faer yn y flwyddyn ddinesig nesaf.*

350. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF
Hysbyswyd yr aelodau fod chwech ymgeisydd wedi cyflwyno eu henwau ar gyfer y sedd wag. Gofynnwyd am bleidlais gudd ac esboniodd y Maer y byddai'r aelodau'n derbyn dolen Wufoo a fyddai'n eu galluogi i bleidleisio, gyda'u dewis ymgeisydd yn cael ei e-bostio'n ddi-enw i'r Clerc. Canlyniad y bleidlais gyntaf oedd pleidleisiau cydradd i ddau ymgeisydd. Cynhaliwyd ail bleidlais i ddewis rhwng y ddau ymgeisydd ac roedd y bleidlais fwyafrif i Ruth Astbury.
PENDERFYNWYD*: cyfethol Ruth Astbury yn aelod o'r Cyngor Tref.*

351. CYNRYCHIOLYDD IEUENCTID AR Y CYNGOR TREF
Roedd y Cynghorydd John Wynne Hughes wedi gofyn am gynnwys yr eitem hon ar yr agenda. Awgrymodd y dylid casglu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae cymunedau eraill yn sicrhau cynrychiolaeth ieuenctid ar eu cynghorau. Cynigiodd arwain grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i hyn.
PENDERFYNWYD*: sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad y Cynghorydd John Wynne Hughes.*

352. CAIS CYNLLUNIO GLASDIR
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cais cynllunio ar gyfer cartrefi fforddiadwy ar dir yng Nglasdir. Cyfeiriodd aelodau at broblemau traffig a thagfeydd potensial a'r effaith ar y Gymraeg a ph'un ai y byddai'r seilwaith lleol yn medru ymdopi. Cydnabuwyd hefyd fod angen am gartrefi fforddiadwy yn y dref a chroesawyd y ffaith y byddai'r anheddau arfaethedig yn dai fforddiadwy.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio. Roedd wyth aelod o blaid, dau yn erbyn a gwnaeth pedwar atal eu pleidlais.*

353. CYNNGIR SIED RHANNU A THRWSIO
Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitem hon yn Rhan 2 gan fod gwybodaeth dan embargo i'w rhannu gyda'r aelodau.
PENDERFYNWYD*: trafod yr eitem yn Rhan 2.*

354. DYDDIADAU PARCIO AM DDIM
Hysbyswyd yr aelodau fod Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig pump diwrnod parcio am ddim yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.
PENDERFYNWYD*: dynodi'r pedwar dydd Sadwrn o 28 Tachwedd tan y Nadolig fel dyddiau parcio am ddim a dynodi diwrnod arall yn y Flwyddyn Newydd.*

355. STRATEGAETH GYFATHREBU
Hysbysodd y Cynghorydd Dave Snape yr aelodau fod y gweithgor wedi cyfarfod ac adolygu'r strategaeth, gan ystyried canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch defnydd y cyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr. Roeddynt yn dymuno cyfarfod un tro olaf i lunio'r ddogfen derfynol, a gofynnodd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ynghylch y ddogfen ddrafft ato ef neu'r Clerc.
PENDERFYNWYD*: derbyn fersiwn derfynol y ddogfen yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.*

356. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitem hon yn Rhan 2 gan fod gwybodaeth sensitif i'w thrafod.
PENDERFYNWYD*: trafod yr eitem yn Rhan 2.*

357. CYFRIFON BLYNYDDOL 2019-20

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2019-20. Roedd cyflwyno'r cyfrifon wedi'i oedi oherwydd amgylchiadau'n deillio o bandemig Covid-19. Diolchodd y Clerc i gwmni Hill & Roberts am eu gwaith yn paratoi'r cyfrifon.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol, i'w llofnodi gan y Maer a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, yn ddarostyngedig i newid cyfeiriad y Cyngor Tref.*

358. DATGANIADAU CYFRIFYDDU

Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o Ddatganiad Cyfrifyddu a Llywodraethu 2019-20 gyda phapurau'r cyfarfod. Darllenodd y Clerc y datganiadau'n unigol a chytunodd yr aelodau gyda phob un.
PENDERFYNWYD*: ateb yn gadarnhaol i'r holl ddatganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu a chyhoeddi'r Datganiad Blynyddol ar y wefan.*

359. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL

Members were requested to consider the Internal Audit report for 2019-20 from JDH Business Services and the responses from Hill & Roberts.
PENDERFYNWYD*: to accept the Internal Audit report and note the actions required in response to the recommendations.*

360. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr adroddiad Archwiliad Mewnol 2019-20 gan JDH Business Services a'r ymatebion gan gwmni Hill & Roberts.
PENDERFYNWYD*: derbyn yr adroddiad Archwiliad Mewnol a nodi'r gweithredoedd sy'n ofynnol mewn ymateb i'r argymhellion.*

361. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:*
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Hydref		£560.03
BA	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cymorth ariannol tuag at swyddfa a gwasanaeth gweithio o gartref CAB Rhuthun		£2,000.00
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Tachwedd		£560.03
BA	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad tuag at dorch pabi Sul y Cofio		£50.00
BA	IT Williams Ltd	Cludo'r planwyr a gwaredu'r gwastraff gwyrdd	*	£722.28
BA	JB Platform Hire Ltd	Llogi peiriant codi gyda gweithredydd i dynnu'r blodau o fasgedi crog Rhuthun	*	£280.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Tachwedd 2020		£184.92
BA	Gwasanaeth Coed Cambria	Adroddiad ynghylch coeden geirios Llwybr Celf wedi marw ar Stryd y Farchnad	*	£72.00
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a	*	£92.40

		thanysgrifiad Sage		
BA	JDH Business Services Ltd	Archwiliad Mewnol 2019/20	*	£372.00

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Gwasanaeth ffôn Cwmwl a band eang	*	£67.19
BA	RIG Joinery	Standiau'r arddangosfa	*	£2,174.40

362. GOLEUO SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnig gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch goleuadau Nadolig ychwanegol yn yr wyth tref yn Sir Ddinbych dros gyfnod y Nadolig. Yn Rhuthun byddai hyn yn cynnwys goleuo tŵr Eglwys Sant Pedr a Sgwâr Sant Pedr.

PENDERFYNWYD*: cefnogi a chroesawu'r goleuadau Nadolig ychwanegol arfaethedig gan Gyngor Sir Ddinbych.*

RHAN DAU

Penderfynwyd trafod y ddwy eitem isod yn breifat.

363. SIED RHANNU A THRWSIO

Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i'r aelodau o ran y fenter Sied Rhannu a Thrwsio rhwng tair tref, Bws Benthyg.

PENDERFYNWYD*: gweithredu fel partner yn y prosiect er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau a sicrhau ymgynghori gyda a chynnwys busnesau lleol.*

364. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Rhannodd y Maer y sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithgareddau'r Hen Lys.

PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

365. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 14 Rhagfyr 2020 am 7pm.*